‘A yw Prydain yn Decach?’ ffeithiau a chanfyddiadau allweddol: **pobl ifanc**

‘A yw Prydain yn Decach?’ (2015) yw adolygiad pum-mlynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain. Mae’r daflen ffeithiau hon yn dirnad rhai o’n canfyddiadau allweddol ni ar bobl ifanc.

Mae oedran yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; mae’n diogelu unigolion rhag triniaeth annheg, ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Mae’n diogelu bobl ifanc rhag gwahaniaethu mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth. Mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos fod yna **7.2 miliwn o bobl ifanc** (16 i 34 mlwydd oed) yn byw ym Mhrydain yn 2013.

Mae gan fwy o bobl ifanc gymwysterau

Ym Mhrydain yn ystod 2013, roedd **67.4% o bobl 17-24 mlwydd oed** wedi ennill cymhwyster yn y flwyddyn ddiwethaf (yn fwyaf cyffredin lefelau A neu raddau prifysgol). Neu roeddynt wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol neu anffurfiol eraill yn y tri mis diwethaf.

Bu gostyngiad ym Mhrydain yng nghanran y bobl ifanc oedd **heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), gan 10.0% yn 2008 i 8.3% yn 2013.**

Er bod pobl ifanc yn ennill cymwysterau gwell, mae rhagolygon a thâl cyflogaeth wedi dirywio, ac mae llawer yn byw mewn tlodi

Ledled Prydain, mae pobl ifanc 16-24 oed wedi profi dirywiad mwy yng nghyfraddau cyflogaeth rhwng 2008 a 2013 na’r rhai yn y grwpiau oedran hŷn.

Roedd y cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yn 2013 yn :



Roedd grŵp oedran 16-24 yn llai tebygol o gael eu cyflogi yn 2013 na 2008, sef dirywiad o bum pwynt canran neu fwy ar draws Prydain.

Ledled Prydain, bu pobl ifanc 16-24 oed yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi elfennol a gwerthiant.

Mae pobl ifanc yn cynrychioli **23.8%** o’r rhai sy’n gweithio mewn swyddi elfennol, ac roedd **21.3%** o’r rhai yn gweithio ym maes gwerthu a swyddi gwasanaeth cwsmeriaid yn 2013.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Gwnaeth enillion cyfartalog yr awr pobl ifanc ostwng (mewn termau real) rhwng 2008 a 2013.

Gwnaeth cyfradd yr awr pobl 16-24 oed ostwng o £0.60 yr awr, o £7.40 yr awr yn 2008 i £6.70 yr awr yn 2013.

Mae canran y bobl ifanc rhwng 16-24 sy'n byw mewn tlodi ym Mhrydain wedi cynyddu o 27.8% yn 2008 i 30.5% yn 2013.

Yn Lloegr mae pobl ifanc 16-24 oed yn fwy tebygol na'r holl grwpiau oedran eraill i fyw mewn llety gorlawn yn y ddau gyfnod amser: 11% yn 2012/13 o gymharu â rhwng 0.5% a 6.4% o grwpiau oedran eraill. Yn yr Alban mewn tai lle'r oedd enillwyr incwm uchaf yn 16-24 oed, roeddynt yn fwy tebygol na'r rhai o grwpiau oedran hŷn o fod yn byw mewn lletyau gorlawn yn 2013: 7.4% o gymharu gyda, er enghraifft, lai na 0.5% o'r rhai 65 oed a throsodd. Nid oes data ar gael ar gyfer Cymru.

Er bod rhagolygon cyflogaeth yn dirywio a thlodi yn cynyddu, mae canlyniadau iechyd cyffredinol yn gwella ar gyfer pobl ifanc



Yn 2011-13, gallai dyn 20 mlwydd oed ym Mhrydain, ddisgwyl byw am 59.5 (58.4 mlynedd yn 2007-09) blynedd arall, a gallai merch 20 mlwydd oed ddisgwyl byw am 63.2 mlynedd arall (62.4 mlynedd yn 2007-09).



Ledled Prydain,
mae tua thraean o bobl 16-24 oed wedi cael eu cofnodi fel rhy drwm neu'n ordew yn 2012:



Ledled Prydain,
mae dros draean o bobl 16-24 oed yn yfed mwy na'r canllawiau dyddiol a argymhellir yn 2012:

34.2% yn Lloegr;
47% yng Nghymru; a
37.8% yn yr Alban.



Ledled Prydain, **mae dros un rhan o bump o bobl 16-24 mlwydd oed wedi eu cofnodi fel ysmygwyr yn 2012**: 21.6% yn Lloegr; 31.1% yng Nghymru; a 24.7% yn yr Alban.

Mae pobl ifanc yn teimlo'n fwy diogel rhag troseddu na grwpiau oedran hŷn, ac eto mae dynion ifanc yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trosedd treisgar.

Yn Lloegr, roedd canran y bobl ifanc 16-24 oed a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anniogel yn eu cartrefi ar eu pen eu hunain neu / ac yn yr ardal leol yn 29.3% yn 2012/13. Roedd hyn yn llawer is na'r canran ar gyfer yr rhai dros 75 mlwydd oed (44.1%).

Yn yr Alban, roedd y canran o bobl 16-24 oed a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anniogel wrth fod adref wrth eu hunain gyda'r nos a/neu'n cerdded wrth eu hunain yn eu hardal leol gyda'r nos yn **27.8%** yn 2012/13. Roedd hyn cryn dipyn yn is na'r canran o'r rheini 75 oed neu hŷn **(42.3%).**

LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL

Yn Lloegr a Chymru, y bobl 16-24 oed sydd fwy tebygol o adrodd eu bod yn ddioddefwyr trosedd dreisgar (7.3%) na'r holl grwpiau oedran eraill, ac roedd dynion yn fwy tebygol o nodi eu bod yn ddioddefwyr trosedd dreisgar (3.2%) na merched (2.1 %) yn 2012/13.

Dynion yn y grŵp oedran 16-24 oedd mewn perygl arbennig, gyda **9.4%** o ddynion 16-24 yr adroddwyd eu bod wedi dioddef trosedd treisgar yn 2012/13, tua dwywaith y gyfradd ymhlith merched yn yr un grŵp oedran.

LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL

Yng Nghymru / Lloegr, mae troseddau dynladdiad fesul miliwn o drigolion, ar gyfer dioddefwyr 16 oed a throsodd, wedi gostwng rhwng 2008/09 a 2013/14, o 13.3 i 10.4. Mae'r duedd yn gostwng yn fwyaf amlwg ymhlith yr 16-29 oed.

Yn yr Alban, mae troseddau dynladdiad i bob miliwn o drigolion wedi gostwng o 22.0 yn 2008/09 i 13.4 yn 2013/14 ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd.

Mae pobl ifanc yr Alban yn fwy tebygol o bleidleisio na phobl ifanc Lloegr a Chymru

Mae **tua dwy ran o dair (67%)** o'r rhai 16 ac 17 oed yn yr Alban yn dweud y byddent wedi pleidleisio yn etholiad cyffredinol 2015 os oedd ganddynt y cyfle, **o gymharu â 39% yng ngweddill y DU.**

Mae'r diddordeb efallai yn fwy oherwydd bod refferendwm annibyniaeth yn 2014 i'r Alban yn gyfle i bobl 16 a 17 oed o'r Alban bleidleisio. Mae Deddf Etholiad yr Alban 2015 [Lleihau Oedran Pleidleisio] hefyd wedi ymestyn hawliau pleidleisio i bobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Alban, o 2016 ymlaen.

Roedd canran is o bobl 16-24 oed yn Lloegr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol megis lobïo a / neu brotestio yn 2013/14 **(19.1%)** na'r rhai yn yr holl grwpiau oedran eraill, ac eithrio'r rhai 75 oed a throsodd.



Roedd pobl 16-24 oed **(5.5%)** yn llai tebygol na phobl 65-74 oed **(10.8%)** i fod yn rhan o gyrff gwneud penderfyniadau lleol yn Lloegr yn 2013/14.

Cymru yw un o'r ychydig wledydd yn Ewrop heb gynulliad ieuenctid cenedlaethol.